CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

DYDD Mercher, 22 Ionawr 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
T. Evans, Transport Planning - Strategy and Infrastructure
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

EBM Environment Office, County Hall - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP. - 9.00 - 9.10 yb

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 22AIN TACHWEDD 2019

PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniad o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2019 gan ei fod yn gofnod cywir.

3. MESURAU FERTIGOL ARFAETHEDIG - HEOL PENTRE-POETH

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion y Cyngor i gyflwyno mesurau cyflymder fertigol ar hyd Heol Pentre-poeth, Llanelli, fel y manylir yn y cynllun sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, a nododd nad oedd dim gwrthwynebiadau wedi dod i law gan breswylwyr sy'n byw ar Heol Pentre-poeth, ond bod dau wrthwynebiad wedi dod i law gan breswylwyr sy'n byw gerllaw yn dilyn ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ynghylch y cynigion.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ddau wrthwynebiad a ddaeth i law, ymatebion y swyddogion i'r rhain ynghyd â'r ddau opsiwn a gynigir ynghylch y cynigion, eu manteision a'u hanfanteision.

PENDERFYNWYD bod y gwrthwynebiadau a ddaeth i law o ran cynnig y Cyngor i gyflwyno mesurau fertigol ar Heol Pentre-poeth, Llanelli, yn cael eu nodi, ond bod y Cyngor yn bwrw ymlaen ag Opsiwn 1 i'w cyflwyno.

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL **DYDDIAD**